OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2222 (Cy. 160)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *14 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 53(1), (2), a (4), 64(3) a 65(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001 a deuant i rym ar 1 Awst 2001.

### Diwygio Rheoliadau 1999

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Rhestr Ardrethhu Canolog (Cymru) 1999(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl Rheoliad 5 mewnosodwch—

"**Cludwyr Nwy Annibynnol**

**5A.**—(1) Trinnir hereditamentau (heblaw hereditamentau a eithrir) a feddiennir, neu os nas meddiennir hwy a berchnogir, gan berson a ddynodwyd drwy ei enwi yn Rhan 3A o'r Atodlen ac sy'n cael eu defnyddio, neu a fyddai'n cael eu defnyddio pe baent wedi'u meddiannu, yn gyfan gwbl neu yn bennaf at ddibenion y person hwnnw wrth weithredu fel cludwr nwy cyhoeddus ac a fyddai, heblaw am y Rheoliad hwn, yn fwy nag un hereditament, fel un hereditament.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) ystyr "hereditament a eithrir" yw hereditament sy'n cynnwys safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn safle swyddfa lle nad yw'r safle hwnnw wedi'i leoli ar dir gweithredol y person dynodedig, neu a ffurfir gan safle felly; a

(**1**) 1988 p.41; diwygiwyd adran 53 gan baragraff 29 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Gweler adran 146(6) o Ddeddf 1988 i gael y diffiniad o "prescribed".
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1999/3453.

(b) mae i "cludwr nwy cyhoeddus" yr un ystyr â "public gas transporter" yn Rhan I o Ddeddf Nwy 1986. (**4**)

(3) Trinnir yr hereditament a ddisgrifir ym mharagraff (1) fel pe bai wedi'i feddiannu gan y person dynodedig."

(3) Yn yr Atodlen, ar ôl Rhan 3, mewnosodwch—

## "Rhan 3A

### Cludwyr Nwy Annibynnol

*Person dynodedig*

British Gas Connections Limited

TotalFinaElf Pipelines Limited

The Gas Transportation Company Limited

SSE Pipelines Limited

ScottishPower Gas Limited

East Midlands Pipelines Limited

GTC Pipelines Limited

Energi Link Limited

Hyder Gas Networks Limited

E.S. Pipelines Limited

*Hereditamentau perthnasol*

Yr hereditamentau a ddisgrifir yn Rheoliad 5A.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis-Thomas*

14 Mehefin 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1986 p.44. Mewnosodwyd adran 7, y mae'r diffiniad yn ymddangos ynddi, ganadran 5 o Ddeddf Nwy 1995 (p.45).

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gyda golwg ar sicrhau bod hereditamentau penodol yn cael eu hardrethu yn ganolog *en bloc,* gall rheoliadau gael eu gwneud o dan adran 53(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 sy'n dynodi person ac yn rhagnodi mewn perthynas â'r person hwnnw un neu ragor o ddisgrifiadau o hereditament annomestig.

Y prif Reoliadau sydd wedi'u gwneud o dan y pw^er hwn yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999 sy'n effeithiol mewn perthynas ag unrhyw restr ardrethu canolog ar gyfer Cymru a luniwyd ar 1 Ebrill 2000 neu wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau drwy ddynodi grw^p o gwmnïau cludo nwy a darparu bod yr hereditamentau rhagnodedig y mae pob un ohonynt yn eu defnyddio er mwyn gweithredu fel cludwr nwy cyhoeddus yn cael eu trin fel un hereditament.